**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodiadau) a Defnyddiau Bwyd Anifeiliaid a Fwriedir at Ddibenion Maethol Penodol (Diwygio Rheoliad y Comisiwn (UE) 2020/354) (Cymru) (Diwygio) 2025**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), a chaiff ei osod gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodiadau) a Defnyddiau Bwyd Anifeiliaid a Fwriedir at Ddibenion Maethol Penodol (Diwygio Rheoliad y Comisiwn (UE) 2020/354) (Cymru) (Diwygio) 2025.

**Sarah Murphy AS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**

26 Mawrth 2025

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodiadau) a Defnyddiau Bwyd Anifeiliaid a Fwriedir at Ddibenion Maethol Penodol (Diwygio Rheoliad y Comisiwn (UE) 2020/354) (Cymru) (Diwygio) 2025 ("Rheoliadau 2025") yn cywiro gwallau drafftio a nodwyd yn Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodiadau) a Defnyddiau Bwyd Anifeiliaid a Fwriedir at Ddibenion Maethol Penodol (Diwygio Rheoliad y Comisiwn (UE) 2020/354) (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024").

1.2 Diben Rheoliadau 2024 oedd:

1.2.1 Rhoi effaith gyfreithiol i benderfyniad Gweinidogion Cymru, mewn perthynas â Chymru, am bump ar hugain o geisiadau ar gyfer ychwanegion bwyd anifeiliaid ac un diwygiad i'r rhestr o ddefnyddiau bwyd anifeiliaid a fwriedir at ddibenion maethol penodol (PARNUT) i'w ddefnyddio mewn bwyd anifeiliaid yng Nghymru.

1.2.2 Darparu trefniadau trosiannol i ganiatáu i stociau presennol o ychwanegion bwyd anifeiliaid penodol a awdurdodwyd yn flaenorol gael eu disbyddu oherwydd newidiadau labelu a/neu newidiadau i amodau awdurdodi, o ganlyniad i ddarpariaeth a wnaed gan Reoliadau 2024.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Mae Rheoliadau 2025 yn mynd i'r afael â gwallau a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (SL(6)554) ar Reoliadau 2024.

2.2 Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rhoddwyd gwybod i'r Llywydd y bydd Rheoliadau 2025 yn dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl gosod yr offeryn.

2.3 Mae'r ddeddfwriaeth hon yn angenrheidiol er mwyn cywiro Rheoliadau 2024 cyn 1 Ebrill 2025, pan ddisgwylir i Reoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Cynhyrchion Rheoleiddiedig) (Diwygio, Dirymu, Darpariaeth Ganlyniadol a Throsiannol) 2025 ("yr OS Diwygio" – sydd wedi'i osod ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd gerbron Senedd y DU, gweler https://senedd.cymru/media/4aynd2pz/gen-ld16953-w.pdf) ddod i rym. Bydd yr OS Diwygio (gweler rheoliad 3(6)) yn dirymu'r pwerau galluogi sy'n ofynnol i wneud Rheoliadau 2024. At hynny, mae rhai o'r cywiriadau a wneir gan Reoliadau 2025 yn berthnasol i'r testun ynghylch awdurdodiadau sydd wedi'i gynnwys yn Rheoliadau 2024 ac sy'n cael ei ddirymu gan yr OS Diwygio (gweler Atodlen 2, is-baragraff (i)). Mae'r dirymiadau yn ddarostyngedig i'r ddarpariaeth arbedion yn Rheoliad 23 o'r OS Diwygio. Mae angen i'r

cywiriadau i Reoliadau 2024 fod mewn grym cyn i'r darpariaethau gael eu dirymu, a hynny er mwyn sicrhau bod yr awdurdodiadau yr effeithir arnynt yn cael eu 'cadw' yn briodol fel y'u cywirwyd.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Ystyr cynhyrchion rheoleiddiedig yw cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n gorfod cael eu hawdurdodi cyn cael eu rhoi ar y farchnad.[1]

3.2 Ers 1 Ionawr 2021, mae Prydain Fawr wedi bod yn gyfrifol am gynnal asesiadau risg ac am awdurdodi cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig.

3.3 Yng Nghymru, yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) sy'n gyfrifol am asesu risg cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig. Fel yr 'awdurdod priodol', Gweinidogion Cymru sy'n gwneud penderfyniadau ar awdurdodiadau mewn perthynas â Chymru.

3.4 Mae ychwanegion bwyd yn sylweddau, micro-organebau neu baratoadau (ar wahân i ddeunyddiau a rhag-gymysgeddau bwyd anifeiliaid) sy'n cael eu hychwanegu'n fwriadol at fwyd anifeiliaid neu ddŵr er mwyn cyflawni, yn arbennig, un neu fwy o swyddogaethau penodol.

3.5 Mae'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer awdurdodi ychwanegion bwyd anifeiliaid wedi'i gynnwys yn Rheoliad (CE) Rhif 1831/2003 ar ychwanegion i'w defnyddio mewn maeth anifeiliaid (EUR 2003/1831).

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'i heffaith fwriadedig

4.1 Cododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, yn ei adroddiad (SL(6)554), ddeg pwynt adrodd technegol mewn perthynas â Rheoliadau 2024. Derbyniodd Llywodraeth Cymru, wrth ymateb i'r adroddiad, fod saith o'r pwyntiau a godwyd yn tynnu sylw at wallau a fyddai'n cael eu cywiro. Mae Rheoliadau 2025 yn gwneud y cywiriadau angenrheidiol i Reoliadau 2024.

## 5. Ymgynghoriad

5.1 Ar 3 Ebrill 2024, lansiodd yr ASB ymgynghoriad wyth wythnos yng Nghymru a Lloegr ar y ffactorau cyfreithlon eraill sy'n berthnasol i'r pedwar ar hugain o geisiadau ar gyfer ychwanegion bwyd anifeiliaid a'r un cais ar gyfer PARNUT. Lansiwyd ymgynghoriad ychwanegol ar gais ar gyfer un ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar 5 Awst 2024 am gyfnod o bedair wythnos. Lansiwyd ymgynghoriadau cyfochrog gan Safonau Bwyd yr Alban (FSS) yn

---

[1] Mae cynhyrchion rheoleiddiedig yn cynnwys toddyddion echdynnu, ychwanegion bwyd anifeiliaid, bwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol (PARNUTS), prosesau dadwenwyno bwyd anifeiliaid, cyflasynnau, deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd, ychwanegion bwyd, ensymau bwyd, bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig, bwydydd newydd a chyflasynnau mwg.

ystod y cyfnod hwn.

5.2 Cafodd ymatebion y rhanddeiliaid eu hystyried yn drylwyr gan yr ASB/FSS. Yn unol â'r Fframwaith Cyffredin dros dro ar gyfer Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid, trafodwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ymhlith y pedair gwlad (yr ASB yng Nghymru, Lloegr, a Gogledd Iwerddon ac FSS). Ni wnaeth unrhyw ymatebion gan randdeiliaid arwain at newid argymhelliad yr ASB i Weinidogion Cymru.

5.3 Cyhoeddodd yr ASB yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar wefan yr ASB.

5.4 Mae ymatebion i ymgynghoriad FSS i'w gweld ar wefan FSS.

5.5 Mae Rheoliadau 2025 yn gwneud cywiriadau i Reoliadau 2024 i sicrhau eu bod yn cyflawni'r effaith a fwriedir. Ar y sail y bu ymgynghori eisoes ar sylwedd Rheoliadau 2024, nid oedd angen unrhyw ymgynghoriad penodol pellach ar y diwygiadau a wnaed gan Reoliadau 2025.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i baratoi ar gyfer yr offeryn hwn gan nad yw'n newid y polisi (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd arwyddocaol. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.

## 7. Effaith ar fusnesau, elusennau a chyrff gwirfoddol

7.1 Nid yw'r Rheoliadau hyn yn effeithio ar unrhyw fusnes, elusen na chorff gwirfoddol.